

| | |
|-----------------|---|
| CYFARFOD | Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli |
| DYDDIAD | 15 Hydref 2019 |
| TEITL | Diweddariad ar Faterion Cod Diogelwch a Carthu |
| AWDUR | Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig |

1 **Cod Morwrol Diogelwch Porthladdoedd**

Gofynnwyd gan y Pwyllgorau Ymgynghorol bod eitem ar y Cod Diogelwch yn destun eitem agenda pob cyfarfod o'r Pwyllgorau Ymgynghorol. Ym mis Tachwedd 2016 fe fu i'r Adran Drafnidiaeth o'r Llywodraeth gyhoeddi addasiadau i'r Cod Diogelwch Porthladdoedd. Mae'r Gwasanaeth Morwrol a Pharciau Gwledig yn adolygu'r Cod Diogelwch ar gyfer harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd yn rheolaidd er sicrhau fod holl systemau diogelwch ein harbyrau yn cyd-fynd gyda gofynion y cod a disgwyliadau ein cwsmeriaid a hefyd er cydymffurfio a gofynion Iechyd a Diogelwch.

Rhwng y 5ed a 6ed Fawrth 2019 fe gynhaliwyd arolygiad trylwyr o systemau diogelwch harbyrau Gwynedd gan Brif Archwiliwr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau. Golygai hyn archwiliadau trylwyr o drefniadau a systemau diogelwch sydd mewn grym yn harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd. Mae hyn er sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio yn llawn gyda'r Cod Diogelwch Porthladdoedd.

Mae'r Archwiliwr wedi cadarnhau bod y Cyngor yn cyd-fynd gyda'r gofynion mewn ffordd broffesiynol a threfnus. Mae'r adroddiad ysgrifenedig wedi cael ei gyhoeddi ac eisoes wedi ei dosbarth..

Pwysleisir na gyflwynwyd unrhyw rybudd o welliant yn ymwneud a materion diogelwch difrifol neu ddiffygion yn yr harbyrau yn ystod 2019. Ni does unrhyw fater o bryder wedi cael ei gyflwyno gan Aelod o bwyllgor Ymgynghorol Pwllheli hyd yma yn 2019.

Er bod y Cod Diogelwch Porthladdoedd yn cael ei adolygu yn rheolaidd gan y gwasanaeth mae yn anorfod atgoffa Aelodau o'r Pwyllgorau Ymgynghorol bod cyfrifoldeb a disgwyl ar Aelodau i gyflwyno sylwadau ar addasrwydd y Cod Diogelwch ac i gyflwyno sylwadau ar drefniadau gwaith yr harbyrau fel gallai'r Cod Diogelwch gael ei adolygu er sicrhau bod y Cod Diogelwch yn berthnasol i weithgareddau'r harbwr; priodoldeb lleoliadau cymhorthion mordwyo, diogelwch cyffredinol a gwaith dydd i ddydd yr harbwr.

2 **Carthu**

Morglawdd Y Crud - mae gwaith rhagbaratoi dyluniadau manwl Grwyn Y Crud wedi eu cwblhau. Mae'r gwaith wedi ei hysbysebu ac mae'r tendrau a gyflwynwyd gan gwmnïau hefyd wedi eu hasesu.

Y cwmni llwyddiannus oedd cwmni '***Jennings Buliding and Civil Engineering***' a fu wedi cyflwyno amcan pris £225K ar gyfer cwblhau'r gwaith.

Mae cais am Drwydded Forol eisoes wedi ei gyflwyno i Gyfoeth Naturiol Cymru. Er roedd disgwyl derbyn canlyniad i'r cais ar y 27ain Fehefin 2019 yn anffodus mae llithriad sylweddol yn hyn ac nid yw'r drwydded wedi ei rhyddhau hyd yma.

Mae oedi yn y broses rhyddhau'r Drwydded Forol oherwydd pryderon sydd gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r cynllun.

Roedd yn hanfodol bod y Cyngor yn cyflwyno cais Trwydded Forol gan fod ôl droed y grwyn yn ymestyn ymhellach nag ôl droed y grwyn presennol. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bryderus am y golled amgylcheddol gan fod ôl droed y grwyn newydd 300 metr sgwâr yn fwy na'r grwyn presennol. Mae hyn yn gyfartal a llai na 0.05% o'r nodwedd Ardal Cadwraeth Arbennig. Fel y deallir polisi Cyfoeth Naturiol Cymru yn 0% colled o'r nodwedd amgylcheddol.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi gofyn bod y Cyngor yn ystyried addasiadau bosibl i ddyluniad y grwyn fel na fod yna golled amgylcheddol. Byddai ail ddylunio y grwyn yn achosi oedi sylweddol a chostau sylweddol i'r Cyngor. Rydym yn fawr obeithio bydd yn bosib creu cynefin amgen oddi amgylch y grwyn newydd drwy edrych ar ddyluniad y grwyn heb wynebu costau sylweddol.

Ni ragwelir byddai gwaith adnewyddu'r grwyn yn amharu ar fordwyo yn yr Harbwr. Rhagwelir bydd y gwaith adnewyddu'r grwyn yn cychwyn ym mis Medi 2019.

Lagŵn Distyllu - cafodd y lagŵn distyllu wedi ei wagio cyn cychwyn ar y gwaith carthu cynnal a chadw ac fe gwblhawyd y gwaith diwedd Ionawr 2019. Mae oddeutu 18,000 med ciwb bellach wedi ei garthu o'r basn a sianel yr harbwr ac fe fydd angen ystyried dulliau amgen i waredu'r gwaddod cyn bod yr ymgyrch nesaf yn gallu cychwyn.

Gwaith Carthu - Cafodd cwmni 'Royal Smals' eu penodi ar gyfer cynnal gwaith carthu yn y sianel fordwyo ac ym masn yr Hafan/Plas Heli. Fe fu i'r gwaith ym mis Mawrth 2019 gan barhau hyd at ddiwedd mis Mai 2019. Roedd cost y gwaith £140K.

Er roedd yn fwriad 'treialu' Gwaith carthu drwy ddefnyddio peiriant sugnedd nid oedd yn bosibl cychwyn ar y gwaith gan olygai byddai angen cau'r sianel fordwyo am gyfnodau tra bod y carthwr yn gweithio yn y sianel. Oherwydd prysurdeb y tymor penderfynwyd peidio â threalu hyn yn 2019. Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru wedi caniatáu i'r Cyngor waredu'r tywod ochr draw a'r prif forglawdd cyn belled a bod y tywod yn cael ei waredu uwchben llinell llanw uchel.

Mae yn bleser adrodd bod y gwaith wedi bod yn hynod llwyddianus ac na fod y gwaith wedi amharu ar waith yr harbwr mewn unrhyw ffordd.

Yn ystod mis Medi fe gwblhawyd Gwaith carthu ger fynediad i'r harbwr drwy ddefnyddio peiriannau oddi ar y tir. Amcangyfrif bod oddeutu 10,000 medr ciwb o dywod wedi ei garthu yn ystod yr ymgyrch diwddar. Mae yn fwriad cynnal ymgyrch pellach yn mis Mawrth/Ebrill 2020.

Tomen Dywod - Mae safle'r domen dywod ger ceg yr Harbwr bron yn llawn. Rhagwelir na fydd yn bosibl ymgymryd ag gwaith carthu sylweddol ychwanegol drwy ddefnyddio peiriannau o'r tir hyd fod tywod a gro wedi ei waredu o'r safle.

Mae' Cyngor yn y broses o hysbysebu cyfleoedd i gwmnïau brynu'r tywod ac fe fydd yr hysbyseb yn ymddangos ar safle we 'Sell to Wales' yn ystod mis Hydref 2019.